**Statws** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 Rhif 677 (Cy.65)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Taliadau Gwasanaeth, Yswiriant neu Geisiadau am Benodi Rheolwyr) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *9 Mawrth 2004* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2004* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 31B o Ddeddf Landlord a Thenant 1985(**1**) ac adran 24B o Ddeddf Landlord a Thenant 1987(**2**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

(**1**) 1985 p.70; cafodd adran 31B ei mewnosod gan adran 83(3) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ("Deddf 2002") o 30 Mawrth 2004 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(**2**) 1987 p.31; cafodd adran 24B ei mewnosod gan adran 86(5) o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 14 iddi o 30 Mawrth 2004 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999 ac Atodlen 1 iddo. Mae diwygiadau i Orchymyn 1999 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.